

# Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar ADY i rieni a gofalwyr

## Rhanbarth Canol De Cymru

Holos Education 2021

Cyhoeddwyd fis Hydref 2021

Cyhoeddir y llyfryn hwn gan y 5 awdurdod lleol sy'n gweithio gyda'i gilydd yn rhanbarth Canol De Cymru: Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg. Er bod y wybodaeth yn gywir ar adeg cyhoeddi'r llyfryn, mae'r awdurdodau lleol yn cadw'r hawl i wneud unrhyw addasiadau os bydd hyn yn angenrheidiol i'w galluogi i gydymffurfio â newidiadau polisi a/neu ddeddfwriaeth.

Manylion cyswllt:

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan eich cyngor lleol:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

Cyngor Caerdydd
www.cardiff.gov.uk

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
www.Merthyr.gov.uk

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
www.rctcbc.gov.uk

Bro Morgannwg
www.valeofglamorgan.gov.uk

## CYNNWYS


| | |
|---|---|
| **Rhagarweiniad**<br>➢ Pwrpas y llyfryn gwybodaeth | **Rhan un** |
| **Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018**<br>➢ Diffiniad Anghenion Dysgu Ychwanegol<br>➢ Dyletswydd awdurdodau lleol<br>➢ Effaith y Ddeddf | **Rhan dau** |
| **Cysylltiadau pwysig**<br>*Rolau allweddol y rheiny sydd ynghlwm â chymorth ADY:*<br>➢ Cydlynydd ADY<br>➢ Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar<br>➢ Swyddog arweiniol clinigol dynodedig addysg<br>*Adnodd – siart cysylltiadau allweddol:*<br>➢ Ysgol<br>➢ Iechyd<br>➢ Addysg | **Rhan tri** |
| **Cynllunio ac adolygu Anghenion Dysgu Ychwanegol**<br>➢ Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn<br>➢ Cynlluniau Datblygu Unigol<br>➢ Proffiliau Un Dudalen<br>➢ Cyfarfodydd a phwy sy'n mynychu | **Rhan pedwar** |
| **Anghytuno a datrys**<br>➢ Camau i'w cymryd er mwyn datrys anghytundebau | **Rhan pump** |
| **Esbonio geirfa**<br>➢ Rhestr o eiriau a brawddegau yn ymwneud â chyfathrebu Anghenion Dysgu Ychwanegol | **Rhan chwech** |
| **Adnoddau – gwybodaeth gynorthwyol a samplau**<br>*Manylion cyswllt*<br>➢ Plant yng Nghymru<br>➢ Anabledd Cymru – fforwm Rhieni a Gofalwyr<br>➢ Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd<br>➢ SNAP Cymru<br>*Samplau o'r canlynol:*<br>➢ Proffil Un Dudalen<br>➢ Cynllun Datblygu Unigol | **Rhan saith** |

# RHAN UN

## Rhagarweiniad i'r llyfryn gwybodaeth

Efallai yr amlygwyd eisoes bod gan eich plentyn anghenion addysgol arbennig. Efallai ei fod yn cael cymorth ychwanegol yn yr ysgol i'w helpu i ddysgu, neu efallai bod ganddo ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ffordd o gefnogi plant ag anawsterau dysgu yn newid. Mae Llywodraeth Cymru wedi pasio deddfwriaeth newydd o'r enw Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) a'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol, fydd yn disodli'r holl ddeddfwriaeth ac arweiniad ynghylch anghenion addysgol arbennig.

Pwrpas y llyfryn hwn yw esbonio'r ddeddfwriaeth newydd a sut bydd hyn yn newid y ffordd y bydd ysgolion yn gweithio gyda chi i amlygu a chefnogi anghenion eich plentyn.

Mae eich awdurdod lleol wedi cynhyrchu canllaw cam wrth gam i'ch helpu i godi pryderon ynghylch dysgu eich plentyn. Ewch i'ch Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd lleol i weld y canllaw neu i gael rhagor o wybodaeth a chyngor.



# RHAN DAU
## Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Yn rhan o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' (ADY) yn lle 'anghenion addysgol arbennig' (AAA). Fodd bynnag, bydd diffiniad ADY yn debyg iawn. Bydd yn cwmpasu'r rheiny sydd:

- yn cael llawer mwy o anawsterau dysgu na mwyafrif y rhai eraill yr un oedran â nhw neu

- os oes ganddo anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n ei atal neu'n ei lesteirio rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill sydd o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach.

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd glir ar awdurdodau lleol i roi cymorth i chi fel rhiant/gofalwr a'ch plentyn i gyfrannu at gynllunio ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol.

**'Mae gwybodaeth a thryloywder yn rhan allweddol o rymuso unigolion. trwy roi rhagor o eglurder iddynt ynghylch beth i'w ddisgwyl, sut i gymryd rhan a sut i gael help.'**

Mae hyn yn cynnwys:

- ✓ Ystyried barn a theimladau'r plentyn, y person ifanc a'r rhiant/gofalwr
- ✓ Hybu cyfranogiad mewn gwneud penderfyniadau
- ✓ Rhoi gwybodaeth a chymorth



## Effaith Deddf ADY (Cymru).

Fel rhiant, efallai eich bod yn pryderu bod gan eich plentyn Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Mae deddf ADY newydd Llywodraeth Cymru'n golygu'r canlynol i'ch plentyn ac i chi fel rhiant/gofalwr: *cydweithrediad gwell, cynllun unedig, cyfranogiad a meddu ar lais a system symlach sy'n achosi llai o wrthdaro.*


**Cydweithrediad gwell** – rhyngoch chi fel rhiant/gofalwr, eich plentyn a'r gwasanaethau sydd ynghlwm â chynllunio a chyflenwi cymorth ADY.

**Cynllun unedig** – Mae cynlluniau datblygu unigol yn gynllun unedig newydd sy'n sicrhau bod cynllun dysgu eich plentyn yn mynd gydag ef/hi yn ystod cyfnodau pontio.

**Cyfranogiad cynyddol a meddu ar lais –** Bydd plant, eu rhieni/gofalwyr a phobl ifanc yn cael eu cynorthwyo i ddeall a chymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, yn cael eu cysuro'n briodol ac yn cael cyfleoedd i godi pryderon a chael atebion i'w cwestiynau.

**System symlach sy'n achosi llai o wrthdaro –** Os na fydd plentyn, ei rieni/gofalwyr neu berson ifanc yn hapus gyda'r penderfyniadau a wnaed gan yr ysgol am ei ADY neu ei gynllun datblygu unigol, gall ofyn i awdurdod lleol adolygu neu ailystyried y penderfyniad.

https://gov.wales/additional-learning-needs-aln-factsheet-children-young-people-parents-and-carers



# RHAN TRI

## Cysylltiadau Pwysig


## Rolau allweddol y rheiny sydd ynghlwm â chymorth ADY

Mae rhieni/gofalwyr wedi awgrymu y byddai rhestr o'r unigolion allweddol sydd ynghlwm â chymorth ADY eu plentyn yn ddefnyddiol. Rydym ni wedi darparu ffurflen i chi gofnodi'r wybodaeth allweddol berthnasol am eich plentyn neu berson ifanc.

Mae Deddf ADY (Cymru) wedi amlygu rolau allweddol fydd yn gyfrifol am gynorthwyo cydlynu a gweithredu'r system ADY. Isod, ceir crynodeb o'r rolau allweddol hynny, a'u cyfrifoldebau.

### Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALNCo).

Mae'r rôl hon yn debyg i rôl y cydlynydd anghenion arbennig. Yr ALNCo yw'r prif gydlynydd ar gyfer dysgwyr ag anghenion ychwanegol. Mae'n gweithio mewn ysgolion a gynhelir, meithrinfeydd, colegau ac unedau cyfeirio disgyblion.





- colegau
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion
- meithrinfeydd a gynhelir

Mae'r cydlynydd yn sicrhau bod anghenion pob dysgwr gydag ADY yn y lleoliad addysg yn cael eu bodloni.

## Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar (ALNLO).


Rôl Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar yw gweithio gyda rhieni, lleoliadau'r blynyddoedd cynnar, gweithwyr iechyd proffesiynol a phobl eraill all fod yn gweithio gyda phlant dan oedran ysgol gorfodol, i godi ymwybyddiaeth o'r system ADY a hyrwyddo ymyrraeth gynnar.




Mae'r ALNLO yn gyfrifol am gydlynu rôl yr awdurdod lleol mewn perthynas â phlant dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgolion a gynhelir. Mae hyn yn berthnasol i bob plentyn hyd nes iddyn nhw gyrraedd oedran ysgol statudol.

## Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg

Mae'r gyfraith newydd yn mynnu bod gan bob bwrdd iechyd swyddog arweiniol clinigol dynodedig addysg (DECLO). Bydd y swyddog arweiniol clinigol yn gyfrifol am gydlynu rôl y bwrdd iechyd mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ag ADY.




Bydd rôl DECLO hefyd yn helpu awdurdodau iechyd ac addysg i weithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol; lle bo'n briodol, bydd yn cyfrannu at CDU a darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol.

**Darpariaeth Dysgu Ychwanegol (disgrifir yn CDU y plentyn neu'r person ifanc)*

Gellir defnyddio'r ffurflen hon i gofnodi ***manylion cyswllt allweddol*** y rheiny sy'n gweithio gyda chi a'ch plentyn.

| **Rôl (beth mae'n ei wneud)** | **Enw / Unigolyn** | **Rhif ffôn / cyfeiriad e-bost** | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|
| Athro dosbarth | | | |
| ALNCO (Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol) | | | |
| Gwasanaeth Cynhwysiant Awdurdod Lleol (Cyngor) | | | |
| Pennaeth ysgol | | | |
| Seicolegydd Addysg a Phlant | | | |
| Gweithiwr iechyd proffesiynol | | | |
| Arall (perthnasol i'ch plentyn) | | | |
| Arall (perthnasol i'ch plentyn) | | | |
| Arall (perthnasol i'ch plentyn) | | | |


# RHAN PEDWAR

## ADY – cynllunio ac adolygu
## Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn / Proffil Un Dudalen / Cynlluniau Datblygu Unigol

### Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn (PCP)

Mae defnyddio offer meddwl sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn gallu gwella sut mae plant, teuluoedd ac ymarferwyr yn cyfathrebu, ac mae mabwysiadu dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn gallu bod yn hynod ddefnyddiol wrth feddwl am bontio a chynllunio ar ei gyfer.


- **Proffil Un Dudalen**
- **Offer Meddwl sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn**
- **Adolygiadau (Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn) Blynyddol**



Bydd yr holl ysgolion a gynhelir a lleoliadau'r blynyddoedd cynnar yn eich awdurdod lleol yn ceisio cyfathrebu â'ch plentyn a gyda chi gan ddefnyddio offer cyfathrebu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda chi a'ch plentyn i gwblhau Proffil Un Dudalen.

Mae Llywodraeth Cymru wedi creu adnoddau ar gyfer teuluoedd, plant a phobl ifanc ar yr hyn y gellir ei ddisgwyl mewn adolygiadau blynyddol a chyfarfodydd ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Defnyddiwch y ddolen i gael mynediad at yr adnodd.
https://gov.wales/person-centred-reviews-guidance-families

## Mae'r isod yn enghraifft o gyfarfod adolygu cynllunio proses PCP.





## Ffocws y cyfarfod adolygu yw darganfod:

- beth sy'n bwysig i'r plentyn yn awr (yn yr amgylchedd addysg a thu hwnt iddo?)
- beth sy'n bwysig yn y dyfodol (beth ddylid ei roi ar waith er mwyn bodloni anghenion dysgu yn y dyfodol?)
- beth yw'r ffordd orau o gynorthwyo'r plentyn (beth y mae angen i chi ei wybod neu ei wneud, fel cwblhau ei gynllun dysgu?)
- beth sy'n gweithio neu ddim yn gweithio (o safbwynt y plentyn/y teulu/yr ysgol?)
- unrhyw gwestiynau i'w hateb – galluogi pawb sydd ynghlwm i ofyn cwestiynau perthnasol, hynny yw, a roddir sylw i'r gofynion statudol (a yw'r CDU'n parhau i fod yn berthnasol?)
- cynllun gweithredu, cytuno ar y camau nesaf i'w cymryd a dyddiad adolygu.

***Mae fideo ac arweiniad pellach ar adolygiadau sy'n canolbwyntio ar y person ar gael [ar-lein] https://youtu.be/bkwBSF0nxiY***

Yn sgil gweithredu Deddf ADY, bydd y rheiny sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn defnyddio proffiliau un dudalen i gasglu gwybodaeth berthnasol. Mae'r proffil yn cofnodi'r holl wybodaeth bwysig am y plentyn neu berson ifanc ar un dudalen o bapur o dan dri phennawd syml:

**1.** Beth mae pobl yn ei werthfawrogi amdana' i?
**2.** Beth sy'n bwysig i fi yn yr ysgol?
**3.** Beth yw'r ffordd orau o roi cymorth i fi yn yr ysgol?



## Cynllun Datblygu Unigol ac Adolygiadau sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn.

Mae Cynllun Datblygu Unigol (CDU) yn ddogfen gyfreithiol fydd yn cael ei defnyddio yn lle datganiadau, Cynlluniau Addysg Unigol a Chynlluniau Cefnogi Dysgu.

Mae CDU yn canolbwyntio ar yr hyn sydd ei angen ar eich plentyn er mwyn cyrraedd ei botensial addysgol. Defnyddir y wybodaeth a nodir yn y CDU i lywio'r Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDY). Bydd y math o gymorth a amlinellir, a'r manylion yn y cynllun, yn dibynnu ar hyd a lled ADY eich plentyn.

### Ar bwy fydd angen CDU?

Unrhyw blentyn neu berson ifanc 0-16 oed sy'n bodloni disgrifiad ADY (gweler Rhan Dau). A hefyd unrhyw berson ifanc 16-25 oed sy'n bodloni'r diffiniad uchod o ADY ac sy'n mynychu neu'n dymuno mynychu coleg.

### Beth fydd yn digwydd os bydd angen CDU ar fy mhlentyn?

Gellir gwneud cais am CDU gan riant/gofalwr, gweithiwr proffesiynol neu'r dysgwr ei hun.

- Ar gyfer plant 0-3 oed, gwneir y cais hwn i'r awdurdod lleol.
- Ar gyfer plant oedran ysgol, gwneir y cais i'r ysgol i ddechrau.
- Ar gyfer myfyrwyr coleg, gwneir y cais i'r coleg – oni bai y ceisir lleoliad mewn coleg arbenigol, lle bydd angen gwneud cais i'r awdurdod lleol.

Y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol fydd eich prif bwynt cyswllt mwy na thebyg, ac eithrio os nad yw eich plentyn wedi dechrau yn yr ysgol neu'r dosbarth meithrin – yn yr achos hwn, eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, yr ALNLO y blynyddoedd cynnar neu arbenigwr y blynyddoedd cynnar arall o'ch awdurdod lleol fydd eich pwynt cyswllt.

Os nad yw'r ysgol yn cytuno bod gan eich plentyn ADY, rhaid iddynt roi gwybod i chi ac esbonio pam. Os byddwch yn anghytuno â'r penderfyniad, dylech drafod hyn gyda'r ysgol yn y lle cyntaf. Os na fyddwch yn gallu dod i gytundeb, gallwch ofyn i'r awdurdod lleol adolygu'r penderfyniad (gweler tudalen 18 am ragor o wybodaeth am beth i'w wneud os byddwch yn anghytuno).

### Sut olwg fydd ar CDU?

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu templed gorfodol ar gyfer y CDU (gweler yr enghraifft yn atodiadau'r canllaw hwn). *Mae'n bwysig nodi nad yw cynnwys gorfodol y CDU wedi'i gadarnhau eto.* Bydd yn cael ei gadarnhau pan fydd y 'Cod' ADY newydd wedi'i lansio.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y gall awdurdodau lleol newid arddull a chynllun y ddogfen, ond rhaid iddynt ddefnyddio'r holl benawdau, ac yn y drefn y maen nhw'n ymddangos ar y templed.

## Pwy fydd yn gyfrifol am greu ac adolygu'r CDU?

| Plentyn/person ifanc | Cyfrifoldeb dros CDU |
|---|---|
| Newyddanedig-3 oed (ddim mewn addysg orfodol) | Awdurdod lleol |
| Plant 4-16 oed sy'n mynychu ysgolion prif ffrwd. | Ysgol ac awdurdod lleol |
| Pobl ifanc 16 oed a hŷn sy'n mynychu coleg prif ffrwd | Y coleg |

Bydd CDU yn cael ei adolygu'n flynyddol (o fewn 12 mis) ar ôl model cyfathrebu a chyfranogiad yr adolygiad sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Os byddwch chi neu eich plentyn yn dymuno hynny, gallwch wneud cais am adolygiad cynt. Hefyd, gall ysgol neu goleg eich plentyn, neu'r awdurdod lleol, benderfynu adolygu CDU yn gynt. Bydd yn rhoi gwybod i chi a'ch plentyn ac yn cytuno ar ble a phryd y cynhelir yr adolygiad.

## Beth yw adolygiad CDU sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn?

Mae adolygiadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn ffordd o benderfynu pa gymorth sydd ei angen ar blentyn neu berson ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) neu benderfynu ar unrhyw newidiadau y mae angen eu gwneud i'w cymorth neu'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.

Mae'n bwysig bod y bobl gywir yn rhan o gyfarfod adolygu plant a phobl ifanc i'w helpu i gynllunio ar gyfer eu dyfodol.

Mae hyn yn sicrhau bod ganddyn nhw'r pethau sy'n bwysig iddyn nhw, yn ogystal â'r cymorth cywir i'w helpu i gyflawni eu dyheadau.

## Pwy fydd yno?

Gall y plentyn neu'r person ifanc ddewis pwy sy'n bresennol, ond bydd yna rai pobl y bydd rhaid iddynt fod yno.

Weithiau, efallai y bydd llawer o bobl yn rhan o'r adolygiad, fel gweithwyr proffesiynol iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg, yn ogystal â theulu a ffrindiau.

Ar adegau eraill, efallai mai dim ond chi, eich plentyn a rhywun o'r ysgol neu'r coleg fydd yno.

## Ble a phryd fydd yn cael ei gynnal?

Bydd yn cael ei gynnal yn lleoliad y blynyddoedd cynnar, yr ysgol neu'r coleg, siŵr o fod, Dylai'r amser a'r dyddiad fod yr un mor gyfleus i bawb sy'n mynychu. Bydd o leiaf un cyfarfod adolygu CDU bob blwyddyn; bydd yr ysgol neu'r coleg yn rhoi gwybod i chi pryd fydd y rhain.

## Beth mae angen i chi feddwl amdano cyn y cyfarfod?

Mae Llywodraeth Cymru wedi creu'r llyfryn *Adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion ar gyfer teuluoedd** i'ch helpu i ystyried beth fyddwch chi eisiau eu dweud. Gallwch ddefnyddio'r adnoddau gweithgareddau yn y llyfryn i ysgrifennu'r pethau yr ydych chi eisiau eu dweud ar y dydd.

Mae'n bwysig i'ch plentyn fod eich barn yn cael ei glywed yn y cyfarfod. Yn yr achos hwn, mae'n hanfodol eich bod yn cymryd amser i feddwl am y cwestiynau, cofnodi eich syniadau yn y mannau a ddarperir ac yn anfon y llyfryn hwn at eich ysgol neu'ch coleg erbyn y dyddiad y gofynnwyd amdano. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod eich barn yn cael ei glywed yn y cyfarfod.



## Beth fydd yn digwydd yn y cyfarfod?

Bydd awyrgylch anffurfiol mewn adolygiad sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sy'n wahanol iawn i gyfarfodydd traddodiadol eraill rydych o bosibl wedi'u mynychu. Mae popeth wedi'i drefnu i fod mor anffurfiol a chyfforddus â phosibl.

Os bydd yn gyfarfod bach, gallai fod yn sgwrs ymlaciedig, neu efallai y gall y cyfarfod gynnwys rhai o'r pethau canlynol.

- Os bydd llawer o bobl yn dod, efallai y bydd bwrdd mawr yno, ond efallai bydd cerddoriaeth yn chwarae a phosteri neu ddarnau mawr o bapur wedi'u pinio i'r waliau.
- Y bwriad yw galluogi pawb sydd yno, gan gynnwys chi, i ddweud beth sy'n bwysig iddyn nhw.
- Bydd pob adolygiad yn newid i fodloni anghenion eich plentyn, sydd wrth wraidd y cyfarfod. Bydd un person, a elwir yn hwylusydd, yn gyfrifol am sicrhau bod pawb yn cael cyfle i ddweud ei farn a bod y cyfarfod yn cytuno ar dargedau a gweithredoedd er mwyn newid.
- Mae'n debygol y bydd yr hwylusydd yn rhywun o'r ysgol neu'r coleg, a dylech gael gwybod pwy fydd hwn cyn y cyfarfod.
- Mae'r cyfarfod yn dechrau gyda phawb yn cyflwyno ei hun ac o bosibl yn rhannu rhywbeth mae'n ei hoffi neu'n ei edmygu am eich plentyn.
- Bydd yr hwylusydd yn esbonio beth fydd yn digwydd yn y cyfarfod adolygu ac yna bydd pawb yn cael cyfle i rannu ei farn a'i wybodaeth am eich plentyn.
- Ar ôl i bawb orffen rhoi eu sylwadau, bydd pob un ohonoch yn ystyried ac yn trafod beth sydd angen ei newid a pha ganlyniadau a thargedau rydych eisiau eu gweld.
- Yna, byddwch yn cytuno ar ba gamau i'w cymryd er mwyn cefnogi eich plentyn i'w helpu i gyflawni ei ddyheadau.

## Ar ddiwedd adolygiad

Erbyn diwedd yr adolygiad, bydd yr hwylusydd yn sicrhau y cytunwyd ar Gynllun Gweithredu.

Bwriad y Cynllun Gweithredu yw sicrhau y gall pawb weld beth fydd yn cael ei wneud i gynorthwyo eich plentyn i ddysgu a chyflawni ei freuddwydion.

*Mae'r wybodaeth uchod wedi'i haddasu o'r adnodd PCP – defnyddiwch y ddolen hon i fynd at lyfryn yr adnodd. Mae'r ddogfen yn darparu templed i'w ddefnyddio gan deulu i baratoi ar gyfer adolygiad sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer eu plentyn.*

* https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-12/person-centred-reviews-for-families.pdf

Hefyd, mae llyfryn adnodd ar gael i ddysgwyr sy'n cymryd rhan mewn adolygiad sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn cynllunio ar gyfer ei ddyfodol. Mae'n cynnwys templed i'w ddefnyddio wrth baratoi ar gyfer ei adolygiad sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Darperir arweiniad ar beth a sut y gall y person ifanc ei gyfrannu i'r adolygiad a'r dulliau mae'n eu dewis i gyflwyno ei farn.

Bydd yr adolygiadau hyn yn canolbwyntio ar y plentyn, a byddant yn rhoi cyfle i'ch plentyn weld sut gall helpu ei hun i gyrraedd ei botensial llawn.

***Enghraifft:***

Penderfynu sut hoffai ddweud wrth bawb beth mae wedi bod yn ei wneud ers yr adolygiad diwethaf.

Awgrymwyd syniadau fel:

- Siarad gyda nhw.
- Creu cyflwyniad PowerPoint y gallant ei wylio heb i chi orfod dweud unrhyw beth.
- Creu cyflwyniad PowerPoint a siarad â nhw am y cyflwyniad.
- Creu sgraplyfr.
- Defnyddio llechen gyfrifiadurol neu liniadur, e.e. iBook.
- Argraffu ffotograffau y gallwch eu rhoi ar y waliau yn ystod y cyfarfod.
- Ysgrifennu datganiadau ar gardiau i'w rhoi ar y waliau yn ystod y cyfarfod.
- Ysgrifennu am beth rydych chi wedi bod yn ei wneud cyn yr adolygiad.
- Ysgrifennu beth rydych chi ei eisiau ar yr un pryd â phawb arall.
- Defnyddio symbolau i esbonio beth rydych chi ei eisiau a sut rydych chi'n teimlo
- Mynd â rhywun gyda chi fydd yn eich helpu chi yn unig

*Wedi'u haddasu o 'adolygiadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn'*
*Llywodraeth Cymru (2015)*

*Mae rhagor o adnoddau i gynorthwyo eich plentyn neu berson ifanc i gynllunio ar gyfer eich cyfarfod adolygu ar gael ar:* https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-12/person-centred-reviews.pdf

# RHAN PUMP
## Anghytuno a datrys

**1. Os ydych chi'n meddwl bod gan eich plentyn ADY**, y cam cyntaf yw siarad gydag athro eich plentyn neu'r ALNCO (Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol). Maen nhw wedi'u hyfforddi i ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar ADY.

**2. Os bydd yr ysgol yn cytuno gyda chi bod gan eich plentyn neu berson ifanc ADY**, bydd yr ysgol yn gweithio gyda chi i greu CDU (Cynllun Datblygu Unigol). Byddwch chi, fel rhiant, yn cael eich gwahodd i gyfrannu at gynnwys y CDU. Mae'n bwysig eich bod yn gwneud hynny gan mai chi sy'n adnabod eich plentyn orau. Fel arfer, caiff CDU ei adolygu pob 12 mis, neu'n gynt os oes angen.

**3. Os nad yw eich ysgol yn cytuno bod gan eich plentyn ADY,** neu os nad ydych chi'n hapus gyda chynnwys CDU eich plentyn. Yn y lle cyntaf, bydd angen i chi drafod hyn gyda'r ysgol. Os nad ydych chi'n fodlon o hyd, gallwch ystyried siarad â'ch Awdurdod Lleol i ofyn am ragor o gyngor. Os bydd yr Awdurdod Lleol yn cytuno bod gan eich plentyn ADY, bydd CDU yn cael ei baratoi neu ei adolygu.

**4. Fodd bynnag, os bydd yr Awdurdod Lleol yn cytuno gyda'r ysgol** ac rydych yn anhapus o hyd, gallant eich cyfeirio at Wasanaethau Eirioli Annibynnol sy'n cynorthwyo teuluoedd a phobl ifanc i wneud penderfyniadau gwybodus am y camau nesaf.

**5. Yr hawl i apelio** – Mae gan bob plentyn, eu rhieni/gofalwyr a phobl ifanc yr hawl i apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru yn erbyn y penderfyniadau.

**6. Tribiwnlys Addysg Cymru** – Ei rôl yw clywed apeliadau yn ymwneud â phlant ag anghenion dysgu ychwanegol a gwneud penderfyniadau arnynt. Gallwch chi, fel rhiant/gofalwr, neu'r person ifanc ei hun, apelio. Mae'r Tribiwnlys yn annibynnol ar y llywodraeth, awdurdodau lleol, ysgolion a Sefydliadau Addysg Bellach. Mae ei benderfyniadau yn rhwymol gyfreithiol.

Hefyd, gall y Tribiwnlys wneud penderfyniadau am allu plentyn i ddeall materion yn ymwneud â'r system ADY, gan gynnwys beth mae apelio yn ei olygu. Gall y Tribiwnlys benodi **cyfaill achos** er mwyn cynorthwyo'r plentyn neu'r person ifanc.

**Ffrind achos** – dyma rywun fydd yn cynorthwyo eich plentyn trwy broses y Tribiwnlys. Bydd plant a phobl ifanc yn cael gwybodaeth i gael mynediad at wasanaethau eirioli annibynnol.

# RHAN CHWECH

## Esbonio Geirfa (Geirfa termau)

**ADHD: Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd:** Mae ADHD yn gyfres o broblemau ymddygiad sy'n gysylltiedig ag anawsterau gyda chyfnodau canolbwyntio, gan gynnwys methu aros yn llonydd a gorfywiogrwydd.

**Eiriolaeth:** pan mae unigolyn yn siarad ar eich rhan.

**Cod Ymarfer ADY:** Canllaw i rieni, ysgolion ac Awdurdodau Lleol am yr help y gallant ei roi i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Rhaid i ysgolion, Awdurdodau Lleol a gwasanaethau cymdeithasol plant ystyried y cod (hynny yw, ni ddylent ei anwybyddu) pan fyddant yn gweithio gyda phlentyn ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. *Ar hyn o bryd, drafft y cod ymarfer yw hwn. (14 Mehefin 2019) I gael diweddariadau* ewch i wefan Llywodraeth Cymru, https://gov.wales/education-skills

**ADY:** Anghenion Dysgu Ychwanegol.

**DDY:** Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (y ddarpariaeth a ddisgrifir yn CDU yr unigolyn)

**Eiriolwr:** person sy'n siarad ar eich rhan.

**Swyddog adolygu annibynnol:** Rhywun sy'n sicrhau bod y plentyn sy'n derbyn gofal yn cael ei drin yn deg.

**Adroddiad Adolygu Blynyddol:** Adroddiad cynnydd ysgrifenedig a gynhyrchir gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol ar gyfer cyfarfod blynyddol neu gyfarfod adolygu pontio.

**Adolygiad Blynyddol:** Dyma adolygiad o Gynllun Datblygu Unigol y mae'n rhaid i Awdurdod Lleol ei gynnal o fewn 12 mis ar ôl creu'r CDU ac yna'n flynyddol.

**Apêl:** Apêl yw pan fyddwch yn gofyn i newid penderfyniad.

**ASD:** Anhwylder y Sbectrwm Awtistig – y term a ddefnyddir ar gyfer amrywiaeth o anhwylderau sy'n effeithio ar ddatblygiad rhyngweithio cymdeithasol, cyfathrebu a'r dychymyg.

**BESD:** 'Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol'. Cael eu galw'n **SEBD** weithiau.

**CAMHS:** Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed – gwasanaeth sy'n darparu help, cymorth a gofal i blant a phobl ifanc sy'n dioddef problemau iechyd meddwl.

**Capasiti:** Capasiti yw gallu gwneud penderfyniad neu ddewis penodol.

**Gwasanaeth Gyrfaoedd:** Mae hwn yn wasanaeth i bawb rhwng 13 a 19 oed, i'w helpu i baratoi ar gyfer pontio i waith a bywyd fel oedolyn.

**Cyfaill achos:** Mae cyfaill achos yn rhywun sy'n gallu helpu plentyn neu berson ifanc i ddeall ei gynllun, ac yn gweud penderfyniadau drosto, fel penderfynu apelio. Mae'n adnabod y plentyn neu'r person ifanc yn barod, ac nid yw'n eiriolwr.

**Cod:** Mae Cod yn rhoi rheolau a chyngor i helpu awdurdodau lleol a phobl eraill i wneud yr hyn y mae'r gyfraith yn dweud wrthyn nhw i'w wneud.

**Datrys Anghytundebau:** Rhaid i'r Awdurdod Lleol ddarparu trefniadau i helpu atal neu ddatrys anghytundebau rhwng rhieni y mae gan eu plant ADY a'r awdurdod lleol neu'r ysgol. Nid yw defnyddio'r gwasanaeth hwn yn effeithio ar hawl y rhiant i apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru.

**Lleoliadau'r Blynyddoedd Cynnar**: Mae'r lleoliadau hyn yn ysgolion ac yn ddosbarthiadau meithrin cyn-ysgol, yn feithrinfeydd dydd ac yn lleoliadau cyn-ysgol.

**Seicolegydd Addysg:** Mae'n cynnig cyngor a chymorth arbenigol i ddisgyblion, rhieni ac asiantaethau eraill. Mae gan y gwasanaeth rôl bwysig yn y broses Asesiad Statudol a gall gyfrannu at y broses gynllunio pontio a rhai adolygiadau blynyddol.

**EOTAS:** Addysg Heblaw yn yr Ysgol.

**Deddf Cydraddoldeb:** Daeth y Ddeddf Gydraddoldeb i rym ym mis Hydref 2010. Mae'n disodli deddfwriaeth arall (fel Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 a Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995) ac mae'n sicrhau cysondeb o ran yr hyn y mae angen i chi ei wneud i sicrhau bod eich gweithle'n amgylchedd teg a chydymffurfio â'r gyfraith.

**Teuluoedd yn Gyntaf:** Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn rhaglen Llywodraeth Cymru sy'n darparu systemau amlasiantaeth a chymorth i deuluoedd.

**Addysg Bellach:** darpariaeth ddysgu (ôl-16) a all gynnwys hyfforddiant neu addysg alwedigaethol.

**Sefydliad Addysg Bellach:** Coleg neu ddarparwr sy'n cynnig dysgu seiliedig ar waith neu addysg oedolion neu gymunedol i rai dros 16 oed.

**Dechrau'n Deg:** Rhaglen Llywodraeth Cymru i deuluoedd sydd â phlant 0-3 oed.

**Y Cyfnod Sylfaen**: Mae hyn yn dechrau pan gaiff plant eu geni ac mae'n para tan ddiwedd eu blwyddyn Derbyn.

**Ymwelydd Iechyd:** Nyrs gymwys a gyflogir gan y Gwasanaeth Iechyd sy'n rhoi cyngor ar iechyd cyffredinol y plentyn, problemau iechyd penodol, ac mae ganddi gyfrifoldeb penodol dros fonitro cynnydd y plentyn a rhoi cyngor i rieni yn ôl yr angen.

**Nam ar y clyw:** Mae disgyblion sydd â nam ar eu clyw yn amrywio o golli clyw i'r rheiny sy'n hollol fyddar.

**Cynhwysiant:** Mae hyn yn ymwneud ag addysgu plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol mewn ysgolion (lleol) prif ffrwd, lle bo hynny'n bosibl.

**Cefnogwr Annibynnol i Rieni:**

Mae Cefnogwr yn rhywun a all roi cymorth i rieni, gan annog cyfranogiad y rhieni a'u helpu i ddeall y system ADY. Mae annibynnol yn golygu rhywun nad yw'n rhan o'r broses gwneud penderfyniadau sy'n pennu math a lefel y cymorth ar gyfer plentyn ag ADY. Yn aml, bydd y Cefnogwr yn rhywun o sefydliad gwirfoddol, Gwasanaethau Partneriaethau Rhieni, yn rhiant arall neu'n ffrind.

**Cynllun Datblygu Unigol (CDU):** Cynllun Datblygu Unigol yw'r enw am y cynllun newydd ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag ADY.

**Awdurdod lleol:** Awdurdod Lleol (y Cyngor); yr awdurdod lleol yw'r Cyngor Sir.

**Gweithiwr Proffesiynol Arweiniol:** Unigolyn sy'n gyfrifol am dywys y plentyn a'r teulu trwy'r system a sicrhau eu bod yn cael y gwasanaethau cywir ar yr adeg gywir.

**Anawsterau Dysgu**: Mae gan blentyn anawsterau dysgu os bydd dysgu yn sylweddol anoddach iddo na'r rhan fwyaf o blant yr un oedran ag ef/hi.

**Plant sy'n derbyn gofal:** Plant sy'n derbyn gofal yw'r rheiny sydd yn y system ofal ac sydd o bosibl mewn cartref maeth.

**LSA:** Cynorthwyydd Cymorth Dysgu

**Ysgol brif ffrwd:** Ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol nad yw'n ysgol arbennig. Ysgolion prif ffrwd yw'r rhan fwyaf o ysgolion, ac maen nhw'n cynnwys ysgolion babanod, iau, cynradd ac uwchradd.

**Ysgol a gynhelir:** Ysgol wladol, gan gynnwys ysgolion cymunedol, sefydledig a gwirfoddol yn ogystal ag ysgolion arbennig cymunedol ac ysgolion arbennig sefydledig.

**Mentor neu Fentor Dysgu:** Oedolyn neu ddisgybl hŷn sy'n cael ei gysylltu â phlentyn i ddarparu cymorth mewn sawl maes, fel dysgu neu ymddygiad.

**MLD:** anawsterau dysgu cymedrol

**Monitro**: asesu gwaith, cynnydd, gwariant neu gyflawniad yn barhaus

**Amlddisgyblaethol:** Cynnwys gweithwyr proffesiynol o wahanol ddisgyblaethau (fel arfer Addysg, Gofal Cymdeithasol ac Iechyd)

**Therapydd Galwedigaethol:** Gweithiwr proffesiynol a gyflogir gan yr Ymddiriedolaeth Iechyd i weithio gyda'r plentyn, y rhieni a'r athrawon. Mae Therapyddion Galwedigaethol yn defnyddio technegau therapiwtig (gan roi cyngor ynghylch cyfarpar ac addasu amgylchedd, lle bo'n briodol) i alluogi'r plentyn i gymryd rhan yn y cwricwlwm dysgu ac yn gorfforol.

**Pediatregydd:** Meddyg sy'n arbenigo yn anghenion babanod a phlant.

**Gwasanaethau Partneriaethau Rhieni:** Darparu gwybodaeth a chymorth i rieni plant ag ADY i helpu'r rheini i chwarae rôl fwy gweithredol a gwybodus yn addysg eu plant.

**Ffisiotherapydd:** Therapydd sy'n helpu plant ag anghenion corfforol a meddygol, helpu gydag ymarferion a rhoi cymorth i rieni ac ysgolion.

**PMLD:** Anawsterau Dysgu Dwys a Lluosog; yn ogystal ag anawsterau dysgu difrifol iawn, mae gan ddisgyblion anawsterau sylweddol eraill, fel anableddau corfforol, nam ar eu synhwyrau neu gyflwr meddygol difrifol. Mae angen llawer o gymorth gan oedolion ar y disgyblion, ar gyfer eu hanghenion dysgu a'u gofal personol.

**Gweithiwr Portage:** Gweithiwr profiadol y Blynyddoedd Cynnar sy'n gweithio gyda phlant 0-3 oed ag anghenion ychwanegol sylweddol a'u rhieni. Mae'n gweithio yn y cartref ac yn darparu rhaglenni i wella datblygiad plant ifanc, gan gadw mewn cysylltiad â gweithwyr proffesiynol eraill.

**Map Darpariaeth**: Map o gymorth sy'n dangos beth mae'r ysgol/awdurdod lleol yn ei ddarparu i'w disgyblion ADY, er mwyn rhoi gwell dealltwriaeth i rieni ynghylch pa gymorth sydd ar gael, pryd ac o ble.

**ABCh:** Addysg Bersonol a Chymdeithasol.

**Seiciatrydd:** Meddyg sy'n helpu pobl ag anawsterau gyda'r ffordd maen nhw'n teimlo ac yn ymddwyn. Mae seiciatryddion plant yn arbenigo mewn helpu plant.

**Uned Cyfeirio Disgyblion:** Mae Uned Cyfeirio Disgyblion yn darparu addysg i ddisgyblion sydd wedi'u gwahardd neu ddisgyblion eraill a allai fod allan o'r ysgol am amrywiaeth o resymau.

**SEAL:** Agweddau cymdeithasol ac emosiynol ar ddysgu.

**Asesiad Adran 140:** Asesiad o anghenion addysg a hyfforddiant myfyriwr yw hwn, a'r ddarpariaeth ofynnol er mwyn eu bodloni. Mae gofyniad statudol ar Swyddogion Gyrfa Cymru i gynnal y rhain, wedi'u dirprwyo iddynt gan Lywodraeth Cymru, o Flwyddyn 11.

**Anghenion Addysgol Arbennig:** Dywed bod gan blentyn Anghenion Addysgol Arbennig os oes ganddo anawsterau dysgu y mae angen darpariaeth addysgol arbennig arnynt. *Mae hyn wedi newid i ADY: Anghenion Dysgu Ychwanegol ers* ***Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018*** *newydd Llywodraeth Cymru*

**SI:** nam ar y synhwyrau.

**Anawsterau Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (SLCD):** Pan fydd gan ddisgybl anawsterau gydag iaith fynegiannol neu iaith oddefol a/neu anawsterau prosesu.

**Anawsterau Dysgu Difrifol (SLD):** Mae gan ddisgyblion sydd ag anawsterau dysgu difrifol namau deallusol neu wybyddol sylweddol. Efallai eu bod yn cael anawsterau symudedd a chyd-symud, cyfathrebu a chanfyddiad a dysgu sgiliau hunangymorth.

**Therapydd Lleferydd ac Iaith**: Bydd Therapydd Lleferydd ac Iaith yn helpu plant sydd ag anawsterau gyda lleferydd, iaith a chyfathrebu.

**Ysgol Arbennig:** Ysgol sydd wedi'i threfnu'n benodol er mwyn rhoi darpariaeth addysgol arbennig i ddisgyblion sydd ag anghenion a datganiadau addysgol arbennig nad yw eu hanghenion yn gallu cael eu bodloni mewn ysgol brif ffrwd.

**Anawsterau Dysgu Penodol**: Anawsterau Dysgu Penodol mewn maes penodol o'r cwricwlwm.

**Tîm o Amgylch y Teulu (TAF):** Ffordd o weithio sy'n dod ag amrywiaeth eang o weithwyr proffesiynol ynghyd i weithio gyda theulu i'w helpu i fynd i'r afael â'r amryw heriau maen nhw'n eu hwynebu.

**Cynorthwyydd Addysgu/Cynorthwyydd Cymorth Dysgu/Cynorthwyydd Cyffredinol (TA/LSA/GA):** Unigolyn sydd wedi'i gyflogi yn yr ysgol i gynorthwyo dysgu plant dan gyfarwyddyd athro dosbarth.

**Cynllun Pontio:** Dyma gynllun a gynhyrchir ar ôl Adolygiad Blynyddol Blwyddyn 9 a gaiff ei ddiweddaru mewn adolygiadau blynyddol dilynol. Pwrpas y cynllun yw dwyn ynghyd wybodaeth o amrywiaeth o unigolion yn yr ysgol a thu hwnt er mwyn cynllunio'n gydlynus ar gyfer cyfnod pontio'r person ifanc i'w fywyd fel oedolyn.

**Tribiwnlys:** Mae tribiwnlys yn grŵp arbennig o bobl sy'n gyfrifol am ddelio ag anghytundebau.

**Nam ar y golwg**: Amrywiaeth o anawsterau o rannol ddall hyd at ddallineb

***Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021. Daw'r Cod hwn i rym ar 1 Medi 2021 fel y darperir ar ei gyfer gan Orchymyn Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2021. https://llyw.cymru/y-cod-anghenion-dysgu-ychwanegol***

# RHAN SAITH

**Adnoddau - gwybodaeth gynorthwyol a thempledi**

Children in Wales
Plant yng Nghymru

### Plant yng Nghymru

Plant yng Nghymru yw'r corff ambarél cenedlaethol ar gyfer sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd yng Nghymru. Mae'n gorff aelodaeth ac mae ei aelodau'n dod o'r sectorau gwirfoddol, statudol a phroffesiynol. Maen nhw'n gweithio gyda'n haelodau, ac ar eu rhan, er mwyn hybu eu buddiannau a bodloni eu hanghenion. Gyda'i gilydd, maent yn:

- Cyfrannu at wireddu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yng Nghymru.
- Brwydro dros wasanaethau cynaliadwy o ansawdd uchel a chyfran deg i bob plentyn a pherson ifanc.
- Sicrhau sylw a thriniaeth arbennig i blant mewn angen a'r rhai sydd ar y cyrion.
- Sicrhau bod llais gan blant a phobl ifanc.

Manylion cyswllt:

www.plantyngnghymru.org.uk

Rhif ffôn: 029 2034 2434

Cyfeiriad e-bost: info@childreninwales.org.uk

# Fforwm Cymru Gyfan i Rieni a Gofalwyr Pobl ag Anableddau Dysgu

All Wales Forum
Fforwm Cymru Gyfan

The All Wales Forum of Parents and Carers of People with Learning Disabilities

*Giving a national voice to empower parents*
*& carers of people with a learning disability*

## Pwy Ydym Ni

Sefydlwyd Fforwm Cymru Gyfan gan grŵp o rieni a gofalwyr o bob rhan o Gymru sydd am gael 'llais a rheolaeth' dros y modd y mae gwasanaethau ar gyfer eu meibion a'u merched ag anableddau dysgu yn cael eu cynllunio a'u darparu.

Cenhadaeth graidd ffcg yw i ddarparu llais cenedlaethol a chydnabyddiaeth i rieni a gofalwyr plant ac oedolion Cymru sy'n byw gydag Anableddau Dysgu.

## Yr Hyn Rydym yn ei Wneud

**Rydym yn hyruyddo i hawl gofalwyr teulu i lais cyfartal yn y broses o gynllunio gwasanaethau ac o ddatblygu polisiau-** *yn galluogi a chefnogi grwpiau gofalwyr ac unigolion i gael eu cynnwys yn llawn yn eu cymunedau a bod yn ganolog i brosesau cynllunio.*

**Rydym yn tynnu sylw at ac yn ymgyrchu ar faterion cenedlaethol a lleol sy'n cael effaith uniongyrchol ar rieni a gofalwyr a'u teuluoedd** - *yn gweithio gyda'n gilydd I sicrhau bod materion sy'n poeni gofalwyr teulu yn cael eu clywed ac yn cael ystyriaeth briodol gan y gymuned ehangach drwy weithio'n gydweithredol ac ymgysylltu'n llawn.*

**Rydym yn gweithio mewn partneriaeth i ffeindio a datblygu ffyrdd arloesol i wella bywydau rhieni a gofalwyr a'u teuluoedd-** *gan weithio gyda sefydliadau eraill yn lleol ac yn genedlaethol,yn rhannu adnoddau a gwybodaeth i lunio a gwella gwasanaethau buddiol.*

***"Rwy'n teimlo'n llai ynysig"***

***"Mae'n dda wybod nad wyf ar fy mhen fy hun ac yn dda bod mewn cysylltiad â theuluoedd eraill "***

**Cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw ymholiadau neu os hoffech wybod mwy am ein prosiectau cyfredol:**

www.allwalesforum.org.uk

I gael hyd in i All Wales Forum of Parents

Dilynwch ni @AllWalesForum

Rhowch alwad inni:

02920 811 120





Ysgrifennwch atom-dyma gyfeiriad ein swyddfa:

The All Wales Forum

Elliot Buildings

21 Cardiff Road

Taff Well

CF15 7RB

Gyda chefnogaeth gan y llywodraeth Cymreig

## Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd (FIS)

Mae'r Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yn darparu cyngor a gwybodaeth rhad ac am ddim ym mhob awdurdod lleol ar amrywiaeth eang o opsiynau gofal plant a gweithgareddau i blant 0-20 oed, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am feithrinfeydd, gwarchodwyr plant, clybiau y tu allan i oriau ysgol, grwpiau chwarae a grwpiau rhieni a phlant bach. Hefyd, rydym yn darparu help a chyngor ar dalu am ofal plant a gweithio yn y maes.

Mae Plant yng Nghymru'n gweithio gyda'r rhwydwaith Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd i ddarparu gwybodaeth ac adnoddau i helpu gyda'u gwaith. I ddod o hyd i fanylion cyswllt eich Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd lleol, ewch i http://www.plantyngnghymru.org.uk/yn-eich-ardal/ a dilynwch y cyfarwyddiadau ar y sgrin.

**Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd** – gwasanaeth gwybodaeth a chyngor i rieni, gofalwyr a phobl sy'n gweithio gyda theuluoedd yn yr awdurdodau lleol yn ymwneud â:

- Gofal plant cofrestredig gan gynnwys gwarchodwyr plant, meithrinfeydd dydd, crèches, grwpiau chwarae a Chylchoedd Meithrin.
- Cynlluniau gofal yn ystod y gwyliau a chynlluniau chwarae mynediad agored
- Gofal plant heb ei gofrestru, gan gynnwys gwarchodwyr, nanis ac au pairs
- Grwpiau rhieni a phlant bach
- Gweithgareddau chwarae, chwaraeon a hamdden
- Help gyda chostau gofal plant
- Gweithio gyda phlant
- Addysg feithrin rad ac am ddim
- Gwasanaethau ieuenctid
- Gwasanaethau iechyd a lles
- Gwasanaethau i blant anabl
- Gwasanaethau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg
- Gwasanaethau cymorth i deuluoedd

*Mae eich awdurdod lleol yn defnyddio'r safle Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd er mwyn cadw gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar ADY.*

## SNAP Cymru

Mae SNAP Cymru yn elusen blant dros Gymru gyfan sy'n gweithio gyda theuluoedd, pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol ar faterion yn ymwneud ag anghenion dysgu ychwanegol ac anableddau. Mae'n wasanaeth eirioli i rieni/gofalwyr.

Mae Gwasanaeth Partneriaethau Rhieni annibynnol SNAP Cymru yn rhad ac am ddim i deuluoedd ac mae'n cynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth di-duedd a chywir trwy ein Cynllun Annibynnol Cefnogi Rhieni.

Mae ein timau o staff a gwirfoddolwyr hyfforddedig yn helpu:

- Teuluoedd i wneud penderfyniadau gwybodus am ysgolion a lleoliadau addysgol eraill a darpariaeth gan asiantaethau iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau eraill.
- Teuluoedd i weithio mewn partneriaeth a chynnal perthnasoedd gwaith da gyda'r gweithwyr proffesiynol perthnasol.
- Ysgolion i barhau i ddatblygu arferion gweithio da gyda rhieni/gofalwyr.
- Teuluoedd i chwarae rôl weithredol a gwerthfawr yn addysg a datblygiad eu plentyn – gan roi dewis i deuluoedd.

Mae timau SNAP o staff a gwirfoddolwyr hyfforddedig yn cynnig:

- Gwybodaeth, cyngor a chymorth cyfrinachol a chywir.
- Rhywun i wrando, a chyfle i deuluoedd drafod pethau.
- Help i gael mynediad i amrywiaeth o wasanaethau cymorth a chyngor arbenigol.
- Cymorth ymarferol i ddelio â llythyrau, llenwi ffurflenni a deall adroddiadau proffesiynol.

*Defnyddiwch y ddolen hon i gael gwybodaeth am eiriolaeth annibynnol i bobl ifanc.*
*http://www.snapcymru.org/wp-content/uploads/2015/11/Advocacy.pdf*

# Proffil Un Dudalen

**Ffotograff**

**Enw:……………………………….**

**Blwyddyn ysgol:………………………..**

**Beth mae pobl yn ei hoffi a'i edmygu amdanaf?**

**Sut gallwch chi fy helpu?**

**Beth sy'n bwysig i fi?**

# Proffil Un Dudalen

## Beth mae pobl yn ei hoffi a'i edmygu amdanaf?

Fy rhinweddau cadarnhaol a'm cryfderau (nid cyflawniadau academaidd) e.e. synnwyr digrifwch, gofalgar, hapus, meddylgar, doniol, caredig, cof da, deallus, cadarnhaol, penderfynol, creadigol, di-ofn, ymroddedig, gwên sy'n goleuo'r ystafell, dyfalbarhad, canolbwyntio, dibynadwy, dewr, eofn, gweithio'n galed, hoffus, cyfeillgar, ffocws, cariadus, byth yn cwyno, poblogaidd, hael, llawn hwyl, llawen, gonest

## Beth sy'n bwysig i fi?

Meddyliwch am ddiwrnod da yn yr ysgol: Pwy fyddai'n eistedd drws nesaf i fi? Gyda phwy y byddwn i'n chwarae yn ystod yr egwyl? Beth yw fy niddordebau a pha weithgareddau ydw i'n eu hoffi? Pryd ydw i'n hoffi eu gwneud nhw? Ydw i'n hoffi mynd i'r ysgol yn gynnar i chwarae pêl-droed gyda fy ffrindiau? Hoff wers? Hoff weithgaredd yn yr ysgol? Hefyd, beth dw i ddim yn ei hoffi? (sy'n gwneud i fi deimlo'n drist e.e. mynd â phensiliau o fy nghas pensiliau)

## Sut gallwch chi fy helpu?

Dyma restr o sut i fy helpu yn yr ysgol a beth sy'n ddefnyddiol/ddim yn ddefnyddiol. Gall gynnwys unrhyw "fotymau" penodol sy'n cael eu pwyso a sut i'w hosgoi neu ddelio â nhw.

Dylai hyn gynnwys yr hyn y mae angen i bobl ei wybod a'r hyn y mae angen i bobl ei wneud, e.e. * Mae Laura'n gallu ystyried sylw negyddol fel pryd o dafod * Mae Anna yn dawel yn naturiol a gall ymddangos ei bod yn "ddi-drafferth" - mae angen cwestiynau tyner arni i'w hannog i gymryd rhan * Mae Jamie'n cael trafferth gofyn i bobl weithio mewn pâr gydag ef. Mae'n helpu os byddwch yn awgrymu pobl iddo weithio gyda nhw a defnyddio ffyrdd eraill o baru plant * Mae amser cylch yn anodd i Joe. Mae'n haws iddo os bydd yn eistedd yn agos at y blaen ac mae'n cael cyfle i ddweud rhywbeth yn gynnar.

## Atodiad A: Cynllun Datblygu Unigol (CDU): Ffurflen safonol

### *Rhan 1.*

| **Adran 1A: Gwybodaeth fywgraffyddol sylfaenol am y plentyn neu'r person ifanc[3] a manylion cyswllt** | |
|---|---|
| 1A.1) Enw llawn: | |
| 1A 2) Enw a ffefrir: | |
| 1A 3) Dyddiad geni: | |
| 1A 4) Rhywedd a rhagenwau a ffefrir: | |
| 1A 5) Lleoliad (au) addysgol presennol: | |
| 1A 6) Cyfeiriad cartref a rhif ffôn: | |
| 1A 7) Enwau'r rhieni[4]: | |
| 1A 8) Cyfeiriad e-bost (dim ond os yw'r plentyn/rhiant/person ifanc yn fodlon derbyn hysbysiadau a dogfennau'n electronig): | |
| 1A.9) Rhif(au) ffôn rhieni (os yw'n wahanol, a dim ond os yw rhiant/rhieni yn cydsynio i'w manylion gael eu cynnwys)2: | |
| 1A.10) Gofynion a dewisiadau cyfathrebu: | |
| 1A.11) Ar gyfer person ifanc, manylion ei gydsyniad i CDU gael ei lunio/ei gynnal: | |
| 1A.12) Materion galluedd: | |

| **Adran 1B: Cyfrifoldeb am y CDU** | |
|---|---|
| 1B.1) Y sefydliad sy'n gyfrifol am gynnal y CDU: | |
| 1B.2) Y dyddiad cau ar gyfer adolygu'r CDU: | |
| 1B.3) Y dyddiad adolygu arfaethedig: | |

[3] Mae person ifanc yn berson sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol ond o dan 25 oed
[4] Ni ddylid ond nodi'r manylion hyn ar gyfer pobl ifanc os ydynt wedi cydsynio i hyn ac os ydynt yn cytuno y gellir rhannu gwybodaeth â'u rhieni

| Adran 1C: Proffil (Amdanaf i) |
| --- |
| |

## *Rhan 2.*

Mae Rhan 2 yn cynnwys yr elfennau hynny o'r CDU y gellir apelio i'r Tribiwnlys yn eu cylch.
Mae'r elfennau hyn wedi'u marcio mewn <u>print coch a thrwm ac wedi'u tanlinellu.</u>

| |
|---|
| **<u>Adran 2A: Disgrifiad o anghenion dysgu ychwanegol (ADY) y plentyn neu'r person ifanc</u>** |
| |

| Adran 2B: Disgrifio a chyflwyno darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) y plentyn neu'r person ifanc | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2B.1) Y deilliant a fwriedir | | | | |
| **<u>2B.2) Y DDdY i'w darparu:</u>** | **<u>2B.3) A ddylid darparu'r DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg?</u>** | 2B.4) Y sefydliad/gwasanaeth a fydd yn darparu'r DDdY, a'r manylion cyswllt (os yw'n wahanol i'r corff sy'n cynnal y cynllun): | <u>2B.5) Dyddiad dechrau:</u> | <u>2B.6) Dyddiad gorffen neu adolygu:</u> |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| 2B.7) Y rhesymau dros y DDdY a restrir uchod | | | | |

| 2B.1) Y deilliant a fwriedir: | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **2B.2) Y DDdY i'w darparu:** | **2B.3) A ddylid darparu'r DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg?** | 2B.4) Y sefydliad/ gwasanaeth a fydd yn darparu'r DDdY, a'r manylion cyswllt (lle bo'n berthnasol): | **2B.5) Dyddiad dechrau:** | **2B.6) Dyddiad gorffen neu adolygu:** |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| 2B.7) Y rhesymau dros y DDdY a restrir uchod | | | | |

| 2B.1) Y deilliant a fwriedir: | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **2B.2) Y DDdY i'w darparu:** | **2B.3) A ddylid darparu'r DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg?** | 2B.4) Y sefydliad/ gwasanaeth a fydd yn darparu'r DDdY, a'r manylion cyswllt (lle bo'n berthnasol): | **2B.5) Dyddiad dechrau:** | **2B.6) Dyddiad gorffen neu adolygu:** |
| | | | | |
| 2B.7) Y rhesymau dros y DDdY a restrir uchod | | | | |

## Adran 2C: Disgrifio a chyflwyno'r DDdY sydd i'w sicrhau gan un o gyrff y GIG

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2C.1) Y deilliant a fwriedir: | | | | |
| **2C.2) Y DDdY i'w darparu:** | **2C.3) A ddylid darparu'r DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg?** | 2C.4) Y sefydliad/ gwasanaeth a fydd yn darparu'r DDdY, a'r manylion cyswllt (lle bo'n berthnasol): | **2C.5) Dyddiad dechrau:** | **2C.6) Dyddiad gorffen neu adolygu:** |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| 2C.7) Y rhesymau dros y DDdY a restrir uchod | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2C.1) Y deilliant a fwriedir: | | | | |
| **2C.2) Y DDdY i'w darparu:** | **2C.3) A ddylid darparu'r DDdY drwy gyfrwng y Gymraeg?** | 2C.4) Y sefydliad/ gwasanaeth a fydd yn darparu'r DDdY, a'r manylion cyswllt (lle bo'n berthnasol): | **2C.5) Dyddiad dechrau:** | **2C.6) Dyddiad gorffen neu adolygu:** |
| 2C.7) Y rhesymau dros y DDdY a restrir uchod | | | | |

| Adran 2D: Lle mewn ysgol/ sefydliad a enwir neu ddarpariaeth bwyd/ llety |
| --- |
| 2D.1) Enw ysgol a gynhelir yng Nghymru sy'n cael ei henwi at ddiben sicrhau bod y plentyn yn cael ei dderbyn iddi |
| |
| 2D.2) Enw unrhyw ysgol benodol neu sefydliad penodol arall y mae'n rhaid sicrhau lle ynddo |
| |
| 2D.3) Darpariaeth bwyd a llety y mae'n rhaid ei sicrhau |
| |

## *Rhan 3.*

| **Adran 3A: Cofnodi gwybodaeth a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r CDU** |
| --- |
| *Os yw gwybodaeth wedi'i chynnwys fel atodiad i'r CDU, rhestrwch hi yma.* |

| **Adran 3B: Amserlen o ddigwyddiadau allweddol** |
| --- |
| 3B.1) Digwyddiadau neu wybodaeth arwyddocaol sy'n berthnasol er mwyn deall ADY y plentyn neu'r person ifanc a chynllunio'r DDdY angenrheidiol: |
| |
| 3B.2) Lleoliadau addysgol blaenorol a fynychwyd gan y plentyn (a'r dyddiadau): |
| |

| Adran 3C: Pontio |
| --- |
| |

| Adran 3D: Trefniadau teithio |
| --- |
| |

## Gwybodaeth ychwanegol ar-lein.

Mae Llywodraeth Cymru a'ch awdurdod lleol wedi creu cyfres o adnoddau a dogfennau arweiniad ar ADY i deuluoedd, plant a phobl ifanc, ac rydym wedi rhestru rhai ohonynt isod.

**Adnoddau ychwanegol** i helpu eich plentyn neu berson ifanc i gynllunio ar gyfer ei gyfarfod adolygu. Gellir cael mynediad atynt [ar-lein] https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-12/person-centred-reviews.pdf

**Drafft o god ymarfer ADY** (14 Mehefin 2019). Am ddiweddariadau, ewch i wefan Llywodraeth Cymru, https://gov.wales/education-skills

**Taflen ffeithiau ADY** ar sut bydd y Ddeddf ADY yn effeithio ar blant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr. Gellir cael mynediad ati [ar-lein] https://gov.wales/additional-learning-needs-aln-factsheet-children-young-people-parents-and-carers

**Adolygiadau blynyddol a chyfarfodydd ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn** - darparu canllaw ar beth i'w ddisgwyl. Gellir cael mynediad atynt [ar-lein] https://gov.wales/person-centred-reviews-guidance-families

**Esboniad hawdd ei ddarllen** o Fil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru). Arweiniad sy'n helpu plant a phobl ifanc sydd angen cymorth ychwanegol i ddysgu – Plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Gellir cael mynediad ato [ar-lein] https://gov.wales/easy-read-explanation-additional-learning-needs-and-education-tribunal-wales-bill

Mae **llyfryn ar Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn** yn darparu templed y gall teulu ei ddefnyddio i baratoi ar gyfer adolygiad sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer eu plentyn. Gellir cael mynediad ato [ar-lein] https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-12/person-centred-reviews-for-families.pdf

**Fideo ar ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn** ac arweiniad ar adolygiadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Gellir cael mynediad atynt [ar-lein] https://youtu.be/bkwBSF0nxiY

**Yr ysgol gynradd i blant 7 i 11 oed**: canllaw i rieni a gofalwyr. Gellir cael mynediad ato [ar-lein] https://gov.wales/primary-school-children-aged-7-11-guide-parents-and-carers

**Fideo digwyddiadau ymgynghori rhanbarthol ar y Cod ADY** sy'n rhoi trosolwg o'r ymgynghoriad ar y drafft o'r cod anghenion dysgu ychwanegol. Gellir cael mynediad ato [ar-lein] https://gov.wales/overview-draft-additional-learning-needs-code-consultation

*Crëwyd gan Holos Education 2020*
*www.holoseducation.org*

# Diolch yn fawr i'r

rhieni/gofalwyr ac ymarferwyr
a gyfrannodd at yr adnodd gwybodaeth
hwn o Ranbarth Canolbarth y De